**P-04-678 - Offer i Helpu Pobl Eiddil**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan |Maggie Macleod ar ôl casglu 20 Llofnod.

**Geiriad y ddeiseb**

*Ni allaf ddeall pam, ar ôl dwy flynedd o apelio i'r bobl sydd â'r pŵer i ddatrys problemau, nad yw addasiad bach wedi'i wneud er mwyn fy ngalluogi i, menyw 77 oed gydag anhawster symudedd oherwydd arthritis yn y ddwy glun/ben-glin, deithio yn y car cymunedol. Nid oes gan y ddau gar a brynwyd at y diben o helpu pobl hŷn a phobl anabl, y mae eu hangen arnaf, ddolenni cydio fel y gall y teithiwr yn y sedd flaen fynd i mewn i'r car. Mae fy ffeil o gysylltiadau'n cynnwys gwneuthurwr y car, a oedd yn fwy na pharod i bostio dolenni cydio, ac roedd cwmni yng Nghaerdydd yn barod i'w gosod (dwi'n siŵr bod arbenigwyr tebyg yn Abertawe!)*

*Rwyf felly yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn orfodol gosod dolenni cydio mewn cerbydau a ddefnyddir mewn cynlluniau trafnidiaeth cymunedol.*

***Gwybodaeth ychwanegol***

*Rwy'n fwy na pharod i dalu'r gost o osod y dolenni cydio - gyda'r amcangyfrif yn £200. Felly, rwy'n gwneud yr apêl hwn mewn ymdrech olaf i fy ngalluogi i ymweld â'r meddyg, sef fy prif angen, a chael rhywfaint o gyswllt cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae fy nghyswllt drwy'r rhyngrwyd ar gyfer siopa ac ati. Os yw'n ofynnol*

*yn ôl y gyfraith i dacsis masnachol gael dolenni cydio, yna dylai maen prawf tebyg fod yn gymwys i geir cymunedol.*

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gŵyr
- Gorllewin De Cymru